# Astudiaeth Enghreifftiol Clwb Cinio Dros 50 Cyngor Cymuned Llannon

## Cip cyflym

**Wrth ymgynghori ag aelodau eu cymuned gwelodd Cyngor Cymuned Llannon fod trigolion hŷn yn teimlo'n unig ac wedi'u hynysu. Penderfynodd y Cyngor sefydlu clwb cinio ar gyfer pobl dros 50 yn eu neuadd gymunedol yn Y Tymbl.**




Mae'r clwb cinio yn agored i bawb gan gynnwys pobl sy'n byw mewn cymunedau cyfagos. Mae'r Cyngor wedi cytuno y gall ffrindiau a pherthnasau trigolion ddod fel y gallant gynnig cefnogaeth estynedig.

Mae pris prydau pobl sy'n byw yn ardal Cyngor Cymuned Llannon yn cael ei gadw ar £6.00, tra bod pobl y tu allan i'r ardal yn talu £8.00.

Mae'n cynnig prynhawn fforddiadwy a buddion llesiant cymdeithasol sylweddol i bawb sy'n mynd iddo..

## Heriau

Mae gan lawer o ardaloedd gwledig boblogaethau bychain a phrinder lleoedd cymdeithasol, sy'n ei gwneud yn anodd i bobl—pobl oedrannus yn enwedig— gadw cysylltiad ag eraill. Mae anawsterau economaidd a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yn ychwanegu at y broblem, ac yn ei gwneud yn anodd i bobl gael gafael ar wasanaethau hanfodol neu gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol. Gall hyn arwain at deimladau cryfach fyth o unigrwydd ac wedi'u hynysu.

## Datrysiadau

Mae clwb cinio yn cynnig cyfle rheolaidd i bobl gysylltu ag eraill, a gwneud iddyn nhw deimlo'n llai unig a chreu ymdeimlad o gymuned. Mae'n cynnig lle cyfeillgar lle y gall unigolion rannu storïau a gwneud ffrindiau. Mae clybiau cinio hefyd yn helpu dod â phobl at ei gilydd, maen nhw'n gwella llesiant, ac yn cefnogi aelodau bregus o'r gymuned.

## Beth sydd ar gael?

**Cwmni**

Mae'r clwb cinio wythnosol yn gyfle i gwrdd â phobl a gwneud ffrindiau. Mae'n helpu lleihau unigrwydd, yn enwedig ar gyfer pobl sydd wedi ymddeol neu'n byw ar eu pen eu hunain. Mae hefyd yn annog pobl i fynd allan a chadw'n weithgar.

**Pryd Twym**

Mae'r Cyngor Cymuned yn cynnig pryd twym dau gwrs, sy'n rhoi dewis iachus, cytbwys i oedolion hŷn er mwyn cynnal eu llesiant. Mae pobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol yn gallu'i chael yn anodd i goginio gartref, felly mae'r clwb cinio yn ffordd fforddiadwy o fwynhau bwyd da gydag eraill.

**Adloniant**

Mae gweithgareddau fel adloniant a Bingo yn helpu gwneud y clwb cinio yn hwyl a chroesawgar. Maen nhw'n annog pobl i ddod yn rheolaidd, yn codi ysbryd pobl, a chreu lle cyfeillgar, cymdeithasol lle y gall pawb ymuno yn yr hwyl a mwynhau eu hunain.

**Trafnidiaeth**

Mae cludiant cymunedol yn ei gwneud yn rhwyddach i bobl ddod trwy gael gwared â rhwystrau teithio. Mae'n helpu pobl all fod yn gaeth i'w cartref i fynd allan, a chysylltu ag eraill. Mae hyn yn rhan hollbwysig o'r prosiect, ac mae'r bws yn gwneud 3 taith i godi pawb. Mae'r Cyngor yn partneru gyda Dolen Teifi i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

## Cinio a Chlonc

Mae'r cyngor yn partneru gyda busnesau lleol i ddarparu bwyd blasus a bwydlen amrywiol.







Mae artistiaid lleol ac adloniant gan gynnwys Bingo yn ychwanegu at y prynhawn






Mae tîm gwerthfawr o wirfoddolwyr yn helpu'r Cyngor i ddosbarthu'r ciniawau wythnosol hyn.

## Cinio Nadolig

Gwyliwch ein hymweliad â Chinio Nadolig 2024 Cyngor Cymuned Llannon ac fe gewch fwy o wybodaeth am y fenter hynod lwyddiannus hon.




"gwnaeth wahaniaeth mawr i fy mywyd"

### Effaith

Hyd at 85 pryd bwyd yr wythnos

£0. Mae'r prosiect yn talu am ei hunan ac fe godir tâl am y cinio sy'n talu am gostau'r prosiect

## Cyllid & Grymoedd

Mae pob cyngor cymuned yng Nghymru yn gorfod cael grymoedd cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth amrywiol i'w cymunedau lleol. Mae'r grymoedd hyn, a roddir iddynt trwy ddeddfwriaeth, yn galluogi cynghorau i drefnu gweithgareddau a mentrau o bob math i wella llesiant ac ansawdd bywyd pobl leol. Gall grymoedd a chyfiawnhadau amrywio, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw.
Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru: gweinydd@unllaiscymru.cymru

## Y Dyfodol

Hwyl yr Haf: trefnwyd cinio rhost 2 gwrs ac adloniant West End ar gyfer yr Haf eleni

Bydd y Cyngor yn cynnal ei Frecwestau Teulu a gweithgareddau chwarae rhad ac am ddim dros wyliau'r haf

Mae cynlluniau ar gyfer canolfan gymunedol a chyfleusterau newydd yn mynd yn eu blaenau.




**Eisiau gwybod mwy?**

**Am ragor o wybodaeth ar brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK

Un Llais Cymru